# Chwedl yn ei Oes ei Hun

Gofynnwch i'r dysgwyr ddisgrifio person enwog, sydd naill ai'n fyw ar hyn o bryd neu sy'n gymeriad ffuglennol. Dechreuwch gyda disgrifiad corfforol ac yna ewch ymlaen i esbonio eu personoliaeth, rhinweddau eraill sydd ganddyn nhw, neu beth maen nhw wedi'i wneud. Wedyn gellid gofyn i'r dysgwyr ysgrifennu 5 tasg chwedlonol y mae'n rhaid i'r person hwnnw eu cyflawni.

# Amrywiadau

Rhowch berson penodol i'r dysgwyr ei ddisgrifio. Gellid cymharu hyn wedyn â pherson a fydd yn cael ei drafod yn y wers (e.e. Tony Blair a Napoleon).